

WG35.5.143

"WEDI MARW, YN LLEFARU ETTO."

MR. EDWARD PHILLIPS,

Bethel, Radyr, ger Caerdydd,

YR HWN A HUNODD GYDA'I DADAU, TACHWEDD 5, 1858,
YN 82 MLWYDD OED,

WEDI BOD YN ABLOD GYDA Y TREFNYDDION CALFINAIDD AM 64 MLYNEDD, AC
YN Y WEINIDOGAETH YN AGOS I 60 MLYNEDD.

"Amddifad ydym heb dadau, a'n mamau megis
gweddwon."—GALARNAD.

CAERDYDD:

ARGRAFFWYD GAN W. JONES, HEOL-DUG.

1859.

X205-312860

MR. EDWARD PHILLIPS.

DACW etto un yn rhagor,
Gododd ar y borau wawr,
Wedi gorphen hir ddydd caled,
Wedi rhoddi ei ben i lawr ;
Wedi croesi trwy'r Iorddonen,
Wedi cyrhaedd at y nôd,
Wedi cael gelynion cedyrn
Heddyw'n droedfaine i'w ei droed.

Un a gododd yn blygeiniol,
Pan nad oedd yn olau dydd ;
Allan aeth o'r Aipht fel Moses,
Nid trwy olwg, ond trwy ffydd ;
Mentro 'i yrfa i'r anialwch,
Ymlaen trwy anghlod a thrwy glod ;
Dewis Iesu yn Ben Bugail,
Wnaeth, a dilyn ôl ei droed.

Ffarwel iddo, fe'n gadawodd,
Wedi teithio amser maith,
Ar rhyw greigydd sythion, sychlyd,
Dros rhyw ffosydd dyfnion, llaith ;
Mewn tymhestloedd Euroclydon,
Heb oleuni haul na lloer,
At y nôd yn uniawn cyrchodd,
Nes gorphwysu yn mynwes Iôr.

EDWARD PHILLIPS oedd ei enw,
Wrth ba un adwaenom ef ;
'Nawr fe gafodd enw newydd,
O argraffwasg y trydydd nef ;
Careg wèn dderbyniodd yma,
Meitr têtg a dirgel nôd,
Fe'i taenellwyd gan y nefoedd
Cyn ei fod yn ddeunaw oed.

Eglwys Bethel, ti ge'st golled,
 Pwy all draethu it' ei faint?
 Colli brawd a cholli cyfaill,
 Colli tad o blith y saint;
 Colli un oedd gryf ei fŵa,
 I wrthsefyll llawer cawr;
 Ar y bummed ddydd o Dachwedd,
 Cafodd angau'i ben i lawr.

Cariad oedd ei fwyd a'i ddioid,
 Serchog oedd ei eiria'i gyd;
 Mab tangnefedd oedd ei enw,
 Pan oedd yma yn y byd:
 Ffyddlon oedd at ei addewid,
 Llariaidd ŵr, fel Moses gynt;
 Dewis wna'i'r gronynau gwenith,
 Yr ũs a chwalai gyda'r gwynt.

Am yn agos driugain mlynedd,
 Bu'n wyliedydd ar y mŵr;
 Cafodd wres a chafodd oerni,
 Cafodd boen a chafodd gur:
 Ond er cymmaint y rhyferthwy,
 Grym gelynion bach a mawr,
 Daliodd afael yn yr udgorn,
 Nes i angau'i dori lawr.

Pe bai genyf ddawn hedegog,
 Carwn ofyn iddo 'nawr,
 Dan bwy gaine o bren y bywyd,
 Mae ef gwedi eistedd lawr?
 Yn ngwmpeini pwy o'r rheini,
 Fu'n ysgrifenu am y gwaed?
 Pa un ai Brown, ai Poole, neu Henry?
 Y rhai a hoffaiſt ol eu traed.

Pa un ai Charles neu John Elias,
 Welaist gynta'r ochr draw ?
 Mr. Lloyd neu Eben Morris,
 Rhoddodd i ti gynta'i law ?
 Buan cawn atebiad ganddo,
 "Paid a gofyn gair fel hyn ;
 Pawb sydd yma oll yn moli
 Y gŵr fu farw ar y bryn."

'Nawr mi welaf ddydd yr angladd,
 Wele luaws wedi cwrdd,
 Dacw'r *coffin*, rhwng y brodyr,
 Yn cael ei rhoddi ar y bwrdd ;
 Yn y côr o dan y pulpid,
 Y man ddewisodd lawer gwaith,
 Yno 'nawr y tro diweddaf,
 Cyn ei rhoi mewn beddrod llaith.

Sion, bellach gwisg alarwisg,
 Paid ag oedi dim yn hwy ;
 Gwel y bylchau yn y rhengoedd,
 Ffyrdd i'r gelyn rhedeg trwy ;
 Bloeddia, gwaedda, a chrochlefa,
 Dyrcha'th lais fel udgorn clir,
 Ar Dywysog mawr y bywyd,
 Gadw gweithwyr ar y mûr.

Bellach, rhaid i mi ddybenu,
 Gan rhoi careg ar ei fedd,
 Hyd yr awr y delo i fyny,
 Yn cario'r palmwydd heb y cledd ;
 Gair i'w gredu yw'r addewid,
 Arno ef gwnawn bwysu 'nawr,
 Fod yn dod yn nghol yr arfaeth,
 Yn ei le rhyw dyrfa fawr.